

The
Electoral
Commission

Llawlyfr y Cyfryngau

Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a
Throseddu a Chomisiynwyr yr Heddlu, Tân a
Throseddu yng Nghymru a Lloegr

Dydd Iau 6 Mai 2021

Cysylltiadau'r cyfryngau ac adnoddau

Cysylltiadau'r cyfryngau

Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol
Andreea Ghita a Billy Proudlock
Ffôn: 020 7271 0704
press@electoralcommission.org.uk
Oriau y tu allan i'r swyddfa: 07789 920 414

Ein sianeli

[Hoffwch ni ar Facebook](#)
[Darllenwch ein blog](#)
Dilynwch ni ar Twitter:
[@ElectoralCommUK](#)
Dilynwch ni ar [LinkedIn](#)

Swyddfa Cymru
Ella Downing
Ffôn: 0292 034 6824
edowning@electoralcommission.org.uk

Gwefannau

www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Gall y cyhoedd fynd i'r wefan hon er mwyn cofrestru i bleidleisio. Mae'n gyflym ac yn hawdd ei defnyddio. Ers ei lansio ym mis Mehefin 2014, mae miliynau o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi cael eu cyflwyno. Lle y bo'n bosibl, dylid cyfeirio at y wefan hon wrth sôn am yr etholiad yn y cyfryngau er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gwybod ble y gallant gofrestru.

www.comisiwnetholiadol.org.uk

Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys adran benodedig ar gyfer newyddiadurwyr sy'n cynnwys ei ddatganiadau i'r wasg. Mae'n cynnwys gwybodaeth am roddion i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr ac ardal canllawiau gyda gwybodaeth i ymgeiswyr a'r rhai sy'n gweinyddu'r etholiad.

The Electoral Commission

Cynnwys

Logisteg	4
Pa etholiadau a gynhelir?	4
Rolau a chyfrifoldebau yn yr etholiad	4
Amserlen etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	7
Ymgeiswyr	9
Dod yn ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr	9
Ymgyrchu yn yr etholiad	11
Terfynau gwariant a rheolau ar dderbyn rhoddion	12
Cyfnod a Reoleiddir	12
Gwariant	12
Rhoddion	14
Adrodd	15
Pleidleiswyr	16
Cofrestru i bleidleisio	16
Y broses bleidleisio.....	17
Y cyfrif a datgan y canlyniadau.....	19
Twyll etholiadol	22

Logisteg

Pa etholiadau a gynhelir?

Mae etholiadau **Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd** yn cael eu cynnal mewn 39 o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio Llundain, Manceinion a Gorllewin Swydd Efrog, lle y cyflawnir y rôl hon gan Faer etholedig).

- Caiff Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei ethol i fod yn llais i'r bobl ac i ddwyn yr heddlu i gyfrif. Mae'n gyfrifol am unrhyw fater sy'n ymwneud â phlisma a'i nod yw lleihau troseddau a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac yn effeithlon yn ei ardal.
- Mae Comisiynydd yr Heddlu, Tân a Throsedd hefyd yn gyfrifol am reoli materion tân ac achub, gan gynnwys darparu gwasanaeth tân ac achub effeithlon a phennu amcanion tân ac achub ar gyfer yr ardal.

Mae'r etholiadau hyn yn cael eu cynnal ar yr un pryd ag etholiadau llywodraeth leol, etholiadau maerol awdurdod lleol ac etholiadau maerol awdurdod cyfunol yn Lloegr. Gellir gweld y llawlyfr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol [ar ein gwefan](#).

Yng Nghymru, mae'r etholiadau hyn yn cael eu cynnal ar yr un pryd ag [etholiadau'r Senedd](#).

Rolau a chyfrifoldebau yn yr etholiad

Mae gan bob ardal yr heddlu Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ethol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, neu yn yr ardal berthnasol, Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throsedd.

Mae Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn gyfrifol am y canlynol:

- y broses enwebu
- cyfrifo a datgan canlyniad yr etholiad
- cydweithio â Swyddogion Canlyniadau Lleol yn ei ardal heddlu a chydlynu eu gwaith
- rhoi cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau Lleol o ran cyflawni eu swyddogaethau yn yr etholiad

Lle y caiff y bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throsedd, ei chyfuno â'r bleidlais ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr, y Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yn gyfrifol am gynnal y bleidlais ar gyfer yr etholiad llywodraeth leol a'r rhan honno o'r etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gynhwysir yn ei ardal awdurdod lleol.

Lle na chaiff y bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throsedd) ei chyfuno ag unrhyw bleidlais arall, y

The Electoral Commission

Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yn gyfrifol am gynnal y bleidlais mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei ardal bleidleisio.


Yng Nghymru, bydd etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu cyfuno ag etholiadau'r Senedd. Mae'r Senedd yn cynnwys hyd at 60 o Aelodau'r Senedd a gaiff eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli. Mae 40 o ASau yn cynrychioli etholaethau yng Nghymru ac 20 o ASau yn cynrychioli pum rhanbarth: Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gorllewin De Cymru, Dwyrain De Cymru, a Chanol De Cymru.

Mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu, penodir Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer pob ardal bleidleisio o fewn ardal yr heddlu. Yng Nghymru, caiff yr ardal bleidleisio ei diffinio fel ardal etholaeth y Senedd a bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol hefyd yn Swyddog Canlyniadau Lleol. Mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu'r etholiad etholaethol ac elfennau o'r etholiad rhanbarthol sy'n dod o fewn ffiniau'r ardal etholaethol, ar gyfer etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Y Swyddog Canlyniadau Lleol mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw'r person sy'n gweithredu fel Swyddog Canlyniadau mewn etholiadau lleol yn yr ardal honno ac fel arfer mae'n uwch-swyddog yn yr awdurdod lleol. Os bydd etholaeth yn cynnwys mwy nag un ardal awdurdod lleol, dynodir y Swyddog Canlyniadau Etholaethol gan Weinidogion Cymru.

CYMRU

ARDALOEDD HEDDLU, AWDURDODAU LLEOL AC ETHOLAETHAU'R SENEDD



The Electoral Commission

Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs yn Saesneg) yn gyfrifol am baratoi a chynnal y cofrestrau etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Rhaid iddynt sicrhau bod y cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl.

Swyddogion Llywyddu

Penodir Swyddogion Llywyddu gan Swyddogion Canlyniadau perthnasol i fod yn gyfrifol am orsafoedd pleidleisio. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf pleidleisio, goruchwylio clerod pleidleisio, rhoi papurau pleidleisio, helpu pleidleiswyr, rhoi cyfrif am bob papur pleidleisio a sicrhau y caiff blychau pleidleisio eu cludo'n ddiogel i leoliad y cyfrif.

Y Comisiwn Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Ein rôl mewn etholiadau yw:

- llunio canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, pennu safonau perfformiad a rhoi gwybod pa mor dda y mae gweinyddwyr etholiadol yn ei wneud yn erbyn y safonau hyn
- llunio canllawiau ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a'u hasiantiaid
- llunio canllawiau ar gyfer pleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- llunio canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau a sut i gymryd rhan ynddynt
- rhoi gwybod am y drefn o gynnal yr etholiad
- cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae pleidiau gwleidyddol yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario

The Electoral Commission

Amserlen etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Digwyddiad	Dyddiad (dyddiad cau os nad canol nos yw hwnnw)
Cyhoeddi hysbysiad etholiad	Dydd Llun 29 Mawrth fan bellaf
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu	4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl	4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu bod asiant etholiad wedi'i benodi	4pm ddydd Iau 8 Ebrill
Gwneud gwrthwynebiadau i bapurau enwebu	Rhwng 10am a 12 canol dydd ddydd Iau 8 Ebrill, gellir gwneud gwrthwynebiadau i bob enwebiad a ddsbarthwyd Rhwng 12 canol dydd a 5pm ddydd Iau 8 Ebrill, dim ond i enwebiadau a ddsbarthwyd ar ôl 4pm ddydd Mercher 7 Ebrill y gellir gwneud gwrthwynebiadau
Cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd	Erbyn 4pm ddydd Gwener 9 Ebrill fan bellaf
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru i bleidleisio	Dydd Llun 19 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post, gwneud cais am bleidlais bost drwy ddirprwy, ac ar gyfer newidiadau i bleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes	5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy	5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill
Cyhoeddi hysbysiad etholiad	Dydd Mawrth 27 Ebrill fan bellaf
Diwrnod pleidleisio	7am i 10pm ddydd Iau 6 Mai

The Electoral Commission

Digwyddiad

Dyddiad (dyddiad cau os nad canol nos yw hwnnw)

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais
am bleidlais bost newydd yn lle
pleidlais bost a ddifethwyd neu a
gollwyd

5pm ddydd Iau 6 Mai

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i
fwrw pleidlais frys drwy ddirprwy

5pm ddydd Iau 6 Mai

Ymgeiswyr

Dod yn ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr

Pwy all ddod yn ymgeisydd?

Rhaid i unrhyw un sydd am sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddau) yng Nghymru a Lloegr fod:

- yn 18 oed o leiaf ar ddiwrnod enwebiad yr ymgeisydd
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd
- wedi ei gofrestru fel etholwr llywodraeth leol mewn ardal cyngor lleol sydd o fewn ardal yr heddlu lle mae am sefyll fel ymgeisydd, ar adeg yr enwebiad ac ar y diwrnod pleidleisio

A oes unrhyw reolau sy'n atal ymgeisydd rhag sefyll?

Mae [rhan 1 o ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr](#) yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n anghymhwysu rhywun rhag sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (neu Gomisiynwyr yr Heddlu, Tân a Throseddau) ym mis Mai, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Enwebiad fel ymgeisydd mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol ar yr un diwrnod lle byddai'r maer hefyd yn arfer swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddau) mewn perthynas â'r ardal honno, er enghraifft, ym Manceinion.
- Euogfarn am drosedd garcharadwy. Mae'r anghymhwysiad hwn yn gymwys hyd yn oed os na chafodd yr ymgeisydd ei garcharu am y drosedd honno, neu os yw'r euogfarn wedi darfod.
- Cyflogaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol gan yr heddlu.

Pryd mae rhywun yn dod yn ymgeisydd?

The Electoral Commission

Er mwyn i berson gael ei enwebu fel ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, bydd angen iddo gyflwyno set o bapurau enwebu wedi'u cwblhau i'r man a nodwyd gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu erbyn 4pm ddydd Iau 8 Ebrill 2021.

Bydd angen i berson sydd am sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddu) gyflwyno'r canlynol:

- y ffurflen enwebu
- y ffurflen cyfeiriad cartref
- y ffurflen cydsynio ag enwebiad

Bydd angen iddo hefyd:

- cyflwyno ernes o £5,000 i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu erbyn 4pm ddydd Iau 8 Ebrill 2021, a gaiff ei dychwelyd os bydd yr ymgeisydd yn cael mwy na 5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau ffafiaeth gyntaf dilys yn ardal yr heddlu

Mae llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth i leihau nifer y llofnodwyr sydd eu hangen ar bob ymgeisydd ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn Lloegr. Bydd angen i ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn hefyd gael llofnodion y nifer ofynnol o etholwyr cofrestredig o ardal yr heddlu. Mae llywodraeth y DU wedi [cyhoeddi tabl sy'n amlinellu sawl llofnodwr sydd eu hangen ar gyfer pob ardal yr heddlu](#), y dylai ymgeiswyr ei ddarllen.

Y dyddiad cynharaf y gall person ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad olaf y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad, sef dydd Llun 29 Mawrth 2021. Os nad yw bwriad person i sefyll wedi cael ei gyhoeddi erbyn y dyddiad hwn, bydd yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y dyddiad cynharaf o'r rhain:

- y dyddiad y cyhoeddir ei fod yn bwriadu sefyll, neu
- y dyddiad y cafodd ei enwebu

Rhaid i hyn fod cyn y daw'r cyfnod enwebu i ben, sef 4pm ddydd Iau 8 Ebrill 2021.

Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau?

Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn cyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ar gyfer ardal yr heddlu erbyn 4pm ddydd Gwener 9 Ebrill 2021.

Ar ôl i'r enwebiadau gau, bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn penderfynu a oes angen cynnal etholiad. Os oes un ymgeisydd yn sefyll ar ôl i'r cyfnod enwebu ddod i ben, ni fydd etholiad yn yr ardal honno, a chaiff yr ymgeisydd ei gyhoeddi'n Gomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Os bydd mwy nag un ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys yn sefyll yn ardal yr heddlu ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enw'n ôl, bydd etholiad.

The Electoral Commission

Os bydd dau ymgeisydd yn sefyll, etholir Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar sail y cyntaf i'r felin. Os bydd mwy na dau ymgeisydd, etholir Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o dan system y bleidlais atodol (ceir rhagor o wybodaeth am y system bleidleisio ar dudalen 17).

Ymgyrchu yn yr etholiad

Pryd y gall ymgeiswyr ddechrau ymgyrchu?

Gall ymgeiswyr ddechrau ymgyrchu unrhyw bryd. Nid oes rhaid iddynt aros am enwebiad dilys er mwyn datgan eu bod am sefyll etholiad, gofyn i bobl eu cefnogi na chyhoeddi deunydd ymgyrchu.

Mae terfynau gwariant etholiad yn gymwys o'r diwrnod ar ôl i berson ddod yn ymgeisydd yn swyddogol.

Beth y gall ymgeiswyr ei ddweud am ei gilydd yn ystod yr ymgyrch?

Fel sy'n wir am bob etholiad, mae'n anghyfreithlon gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd er mwyn dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Mae rheolau am ddifenwi hefyd yn gymwys i ddeunyddiau etholiad.

Gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o'r drosedd etholiadol benodol o wneud datganiad ffug. Mater i'r llysoedd sifil yw difenwi.

Fel sy'n wir am bob etholiad, nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl reoleiddiol mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu na'r hyn y mae ymgeiswyr yn ei ddweud am ei gilydd. Serch hynny, rydym yn annog pob ymgyrchydd i ymgymryd â'i rôl hanfodol mewn ffordd gyfrifol a helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn dryloyw.

A oes unrhyw reolau etholiadol ynghylch deunyddiau ymgyrchu?

Yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddefnyddio 'argraffnodau' ar eu holl ddeunydd ymgyrchu argraffedig. Mae argraffnod yn cynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a'r hyrwyddwr (y sawl a awdurdododd i'r deunydd gael ei argraffu). Rhaid iddo gael ei gynnwys ar bob deunydd argraffedig fel posteri, hysbyslenni a thafleenni. Rhaid i hyn ddigwydd fel y gall etholwyr fod yn glir ynghylch ffynhonnell y deunydd ymgyrchu. Mae'n drosedd peidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiad argraffedig.

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell y dylai ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, lle y bo'n bosibl, gynnwys argraffnod ar eu deunydd digidol (e.e. gwefannau, negeseuon e-bost a llwyfannau cyfryngau

The Electoral Commission

cymdeithasol). Mae angen i bleidleiswyr wybod pwy sy'n eu targedu â negeseuon gwleidyddol ar-lein ac rydym wedi galw am newid yn y gyfraith.

Ym mis Hydref 2020, lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar gyflwyno argraffnodau digidol. Byddai hyn yn cynnig cynnydd pwysig mewn tryloywder i bleidleiswyr.

A all ymgeiswyr weld y gofrestr etholiadol?

Pan fydd rhywun yn dod yn ymgeisydd, bydd ganddo'r hawl i gael copi, am ddim, o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o'r bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau'r pleidleiswyr absennol) ar gyfer yr ardal heddlu gyfan y mae'n ymladd yr etholiad ynddi.

Dim ond i'w helpu i gwblhau eu ffurflen enwebu, i ymgyrchu ac i gadarnhau bod y rhoddion a gânt yn dod o ffynhonnell a ganiateir y gall ymgeiswyr ddefnyddio'r gofrestr etholiadol lawn.

Ni ddylai ymgeiswyr roi unrhyw fanylion sydd ond yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol lawn (ac nid ar y gofrestr agored, sydd ar werth yn gyffredinol).

Terfynau gwariant a rheolau ar dderbyn rhoddion

Cyfnod a Reoleiddir

Beth yw'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai?

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr 2021 yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i rywun ddod yn ymgeisydd yn swyddogol ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 6 Mai 2021.

Y dyddiad cynharaf y gall rywun ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad olaf y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad, sef dydd Llun 29 Mawrth 2021, a rhaid i hyn ddigwydd erbyn diwedd y cyfnod enwebu fan bellaf (4pm ddydd Iau 8 Ebrill 2021).

Gwariant

Beth yw'r terfynau gwariant?

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir, ni ddylai ymgeiswyr wario mwy na'r terfyn gwariant a ragnodir, sef uchafswm yn seiliedig ar ardal yr heddlu y mae'r ymgeisydd yn sefyll ynddi.

The Electoral Commission

Gellir gweld y terfynau ar gyfer pob ardal yng [Nghanllawiau'r Comisiwn ar wariant a rhoddion ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr](#).

Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant?

Mae gwariant ymgeisydd yn cynnwys costau:

- hysbysebu o unrhyw fath, fel posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau neu'r cyfryngau cymdeithasol. Nid yw hyn yn cynnwys gwariant ar baratoi a chyhoeddi'r anerchiad etholiadol swyddogol y gall ymgeiswyr ei roi ar wefan Swyddfa'r Cabinet
- deunydd digymell a anfonir at bleidleiswyr, fel llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost na chânt eu hanfon mewn ymateb i ymholiadau penodol
- costau cludiant, fel ceir wedi'u llogi neu gludiant cyhoeddus i'r ymgeisydd neu ymgyrchwyr yr ymgeisydd
- cyfarfodydd cyhoeddus
- costau staff, fel cyflog asiant, neu staff sydd wedi'u secondio i ymgeisydd
- adeiladau, fel swyddfa'r ymgyrch
- costau gweinyddol, gan gynnwys biliau ffôn, deunydd ysgrifennu, llungopiâu a'r defnydd o gronfeydd data

Ymhlith y gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif mae:

- talu'r ernes etholiadol
- unrhyw beth (ac eithrio hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig
- cyfleusterau y mae gan yr ymgeisydd hawl i'w defnyddio fel ymgeisydd, fel ystafell gyhoeddus ar gyfer cyfarfod
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan staff nad yw'r ymgeisydd yn eu talu amdano
- costau y gellir eu priodoli'n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd
- y defnydd o brif gartref rhywun, a ddarperir am ddim
- y defnydd o gar personol rhywun neu ddull cludiant arall, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol y person hwnnw ac a ddarperir am ddim
- y defnydd o gyfarpar cyfrifiadurol neu argraffu rhywun, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol y person hwnnw ac a ddarperir am ddim

Pwy sy'n gyfrifol am wariant ymgeisydd?

Cyfrifoldeb asiant yr ymgeisydd (neu'r ymgeisydd, os yw'n gweithredu fel ei asiant ei hun) yw cadw cofnod llawn a chywir o wariant. Dylai'r ymgeisydd a'r asiant sicrhau eu bod yn

The Electoral Commission

deall y rheolau a bod pob gwariant wedi'i awdurdodi a'i gofnodi'n gywir. Rhaid i'r ymgeisydd a'r asiant wneud datganiad bod yr hyn a gofnodir ganddynt yn gywir. Mae gwneud datganiad anwir yn drosedd.

Ymgyrchoedd lleol

Gelwir sefydliadau neu unigolion, nad ydynt yn sefyll fel ymgeiswyr yn yr etholiadau, ond sy'n ymgyrchu dros neu yn erbyn ymgeisydd yn ardal yr heddlu, yn ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau.

Gallant wario hyd at swm penodol ym mhob ardal yr heddlu yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar ymgyrchu dros neu yn erbyn yr ymgeisydd. Mae gan bob ardal yr heddlu ei therfyn gwariant ei hun, y gellir ei weld yn ein canllawiau ar [wariant a rhoddion yn yr etholiadau hyn](#).

Rhoddion

Beth sy'n cyfrif fel rhodd?

Mae rhodd yn cynnwys arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir tuag at wariant ymgeisydd, am ddim neu ar delerau anfasnachol, ac sy'n werth dros £50. Mae hyn yn cynnwys:

- rhodd arian neu fath arall o eiddo
- rhywun yn talu anfoneb ar gyfer gwariant ymgeisydd a fyddai fel arfer yn cael ei thalu gan yr ymgeisydd
- noddi digwyddiad neu gyhoeddiad

Nid ystyrir bod unrhyw beth sy'n £50 neu lai yn rhodd.

Pwy all roi rhoddion i ymgeiswyr?

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw rodd a dderbynnir sy'n werth mwy na £50 yn dod o ffynhonnell a ganiateir. Mae hyn yn gymwys i roddion arian parod a rhoddion mewn da.

Rhaid i roddion nad ydynt yn dod o ffynhonnell a ganiateir gael eu dychwelyd i'r rhoddwr o fewn 30 diwrnod. Ar ôl hynny, gall y rhodd gael ei fforffedu.

Diffinnir rhoddwyr a ganiateir yn y DU fel:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr

The Electoral Commission

- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU yn gyfan gwbl neu'n bennaf ac sydd â'i phrif swyddfa yn y DU

Gall ymgeiswyr hefyd godi arian drwy wefannau cyllido torfol tuag at eu hymgyrch. Rhaid i'r ymgeisydd wybod pwy sydd wedi rhoi'r arian fel y gall wneud gwiriadau i gadarnhau y caniateir derbyn yr arian, a sicrhau bod mesurau ar waith i ddychwelyd rhoddion gan ffynonellau nas caniateir.

I ba raddau y gall pleidiau gwleidyddol ariannu eu hymgeiswyr?

Mae llawer o bleidiau gwleidyddol yn cynnal 'cronfeydd ymladd' lleol i'w hymgeisydd. Os yw'r gronfa wedi'i rheoli gan y blaid ac nid yr ymgeisydd, caiff rhoddion i'r gronfa eu trin fel rhoddion i'r blaid fel arfer ac nid oes angen i'r asiant roi gwybod amdanynt fel rhoddion i'r ymgeisydd, oni chaiff y rhoddion eu rhoi'n benodol tuag at ymgyrch etholiadol yr ymgeisydd.

Fodd bynnag, bydd angen i ymgeiswyr roi gwybod am roddion gan y blaid at ddiben talu am y gwariant ar eu hymgyrch.

Adrodd

Sut mae ymgeiswyr yn adrodd am eu gwariant a reoleiddir?

Rhaid rhoi gwybod i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu am fanylion gwariant a rhoddion yr ymgeisydd, ynghyd â datganiad gan yr asiant a'r ymgeisydd bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir, o fewn 70 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan.

Os na eir i unrhyw wariant, rhaid i'r ymgeisydd (neu ei asiant) gyflwyno ffurflen dim trafodion.

Pleidleiswyr

Cofrestru i bleidleisio

Pwy all bleidleisio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (neu Gomisiynwyr yr Heddlu, Tân a Throseddu) ar 6 Mai?

Gall person bleidleisio yn yr etholiadau ar 6 Mai 2021 os yw wedi'i gofrestru i bleidleisio.

Gall person gofrestru i bleidleisio os yw:

- yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio
- yn ddinesydd Prydeinig
- yn ddinesydd Gwyddelig, yr UE neu'n ddinesydd cymwys yn un o wledydd y Gymanwlad

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru yw canol nos, nos Lun 19 Ebrill 2021.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost yw 5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, heblaw mewn argyfwng, yw 5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy o ganlyniad i argyfwng yw 5pm ddydd Iau 6 Mai 2021.

Sut y gall rhywun gofrestru i bleidleisio?

Gall pleidleiswyr fynd ar-lein i gofrestru yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Gall pobl wneud cais o hyd drwy gwblhau ffurflen gofrestru bapur os oes well ganddynt. Gallant gysylltu â'u swyddfa cofrestru etholiadol leol i ofyn am ffurflenni neu gallant eu lawrlwytho o [wefan Llywodraeth y DU](#).

Y broses bleidleisio

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [llawlyfr y cyfryngau](#) sy'n cynnwys gwybodaeth bellach am sut y caiff y broses bleidleisio ei chynnal yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwnnw yn ategu'r wybodaeth a roddir yma.

Pryd y bydd gorsaf bleidleisio yn agor?

Bydd pob gorsaf bleidleisio yn agor am 7am ac yn cau am 10pm.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun mewn ciw i fynd i mewn i orsaf bleidleisio am 10pm?

Bydd unrhyw bleidleisiwr sy'n cyrraedd ei orsaf bleidleisio cyn 10pm ac sydd mewn ciw yn aros i bleidleisio am 10pm, **yn gallu pleidleisio**.

Pa system bleidleisio a ddefnyddir mewn etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (neu Gomisiynwyr yr Heddlu, Tân a Throseddu)?

Mewn etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (neu Gomisiynwyr yr Heddlu, Tân a Throseddu) â thri ymgeisydd neu fwy, defnyddir system y Bleidlais Atodol, lle y bydd pleidleiswyr yn bwrw pleidlais ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddu.

Os mai dim ond dau ymgeisydd fydd yn sefyll mewn ardal, defnyddir y system cyntaf i'r felin.

Pleidleisio'n bersonol

Gall pleidleiswyr cofrestredig fynd i'w **gorsaf bleidleisio** leol rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 6 Mai i fwrw eu pleidlais. Dylai pleidleiswyr neilltuo digon o amser er mwyn sicrhau na fyddant yn colli'r cyfle i ddweud eu dweud.

- Cyn y diwrnod pleidleisio, anfonir cerdyn pleidleisio at bleidleiswyr sy'n cynnwys manylion am leoliad eu gorsaf bleidleisio
- Dim ond yn yr orsaf bleidleisio a nodir ar y cerdyn hwn y gall pleidleiswyr bleidleisio
- Bydd staff gorsaf bleidleisio wrth law i egluro'r papur(au) pleidleisio a sut i bleidleisio

Nid oes angen i bleidleiswyr fynd â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ond bydd gwneud hynny yn cyflymu'r broses

The Electoral Commission

Pleidleisio drwy'r post

Os na fydd pleidleiswyr am fynd i orsaf bleidleisio, neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny, gallant wneud cais am bleidlais bost. Gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais bost ar gyfer etholiad penodol, cyfnod penodol o amser, neu ar gyfer pob etholiad. Er mwyn pleidleisio drwy'r post, bydd angen i etholwyr cofrestredig wneud cais am bleidlais bost cyn 5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.

- Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn uniongyrchol at bleidleiswyr tua wythnos cyn y diwrnod pleidleisio
- Dylai pleidleiswyr gwblhau eu papurau pleidleisio a'u dychwelyd ar unwaith, er mwyn iddynt gyrraedd cyn 10pm ddydd Iau 6 Mai
- Ni chaiff pleidleisiau fydd yn cyrraedd ar ôl 10pm ddydd Iau 6 Mai eu cyfrif. Yr unig eithriad yw os bydd rhywun mewn ciw mewn gorsaf bleidleisio am 10pm er mwyn dychwelyd pleidlais bost a gwblhawyd
- Os na fydd pleidleiswyr yn caniatáu digon o amser i bostio eu pleidlais, gallant fynd â hi i orsaf bleidleisio yn eu hardal bleidleisio rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio
- Rhaid i bleidleiswyr hefyd gofio cwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post – gyda'u llofnod a'u dyddiad geni neu ni chaiff eu pleidlais ei chyfrif

Pleidleisio drwy ddirprwy

Gall pleidleiswyr gofrestru ar gyfer 'pleidlais drwy ddirprwy'. Mae hyn yn golygu eu bod yn gofyn i rywun y maent yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eu rhan dros yr ymgeisydd y maent am bleidleisio drosto. Bydd angen iddynt gwblhau a llofnodi ffurflen a'i dychwelyd i'w swyddfa cofrestru etholiadol leol erbyn 5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

Pa ddarpariaethau a wneir i sicrhau bod y broses bleidleisio yn hygyrch i bleidleiswyr ag anableddau?

Mae'n ofyniad cyfreithiol darparu dyfais bleidleisio gyffyrddadwy ym mhob gorsaf bleidleisio. Mae'r dyfais hon yn galluogi rhywun sy'n ddall neu'n rhannol ddall i farcio'r papur pleidleisio ei hun, unwaith y bydd naill ai ei gydymaith neu'r Swyddog Llywyddu wedi darllen y manylion ar y papur pleidleisio iddo. Hefyd, rhaid arddangos fersiwn print bras o'r papur pleidleisio y tu mewn i'r orsaf bleidleisio er mwyn helpu pleidleiswyr sy'n rhannol ddall. Rhaid i gopïau llaw mwy o faint, a gaiff eu marcio fel 'saml', fod ar gael hefyd i unrhyw un sydd eu hangen.

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Hygyrchedd Etholiadau, a gaiff ei redeg gan Swyddfa'r Cabinet, er mwyn ystyried sut y gellir sicrhau bod y broses bleidleisio yn fwy hygyrch. [Mae'r Comisiwn wedi ymateb i gais Llywodraeth y DU am dystiolaeth gydag argymhellion ar sut y gellir sicrhau bod etholiadau yn fwy hygyrch.](#)

The Electoral Commission

Mae'r Comisiwn yn darparu [canllawiau i staff gorsafoedd pleidleisio](#) er mwyn eu helpu i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bawb. Mae'r wybodaeth hon ar gael i staff sy'n cynnal yr etholiadau llywodraeth leol.

Y cyfrif a datgan y canlyniadau

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [llawlyfr y cyfryngau](#) sy'n cynnwys gwybodaeth bellach am sut y caiff y broses gyfrif ei chynnal yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r wybodaeth yn y llawlyfr hwnnw yn ategu'r wybodaeth a roddir yma.

Pwy sy'n gyfrifol am y cyfrif?

Y Swyddog Canlyniadau Lleol sy'n bennaf cyfrifol am gyfrif y pleidleisiau yn ei etholiad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Swyddogion Llywyddu yn cludo blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif mewn modd diogel ac amserol; a bod y sawl a gaiff ei recriwtio i gyfrif y papurau pleidleisio wedi'i hyfforddi'n dda o ran sut y dylai gyflawni ei ddyletswyddau.

Sut y byddaf yn gwybod pryd y caiff y canlyniadau eu datgan mewn ardaloedd gwahanol?

Bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn gallu rhoi amcan o amseroedd ar gyfer y broses gyfrif.

Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif a'r canlyniadau eu cyhoeddi?

Mae pedwar cam i'r broses gyfrif.

- 1. Derbyn blychau pleidleisio:** bydd blychau pleidleisio drwy'r post a blychau pleidleisio o'r gorsafoedd pleidleisio yn cyrraedd lleoliad y cyfrif
- 2. Dilysu**
 - Bydd staff yn cyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post ac yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r niferoedd a gofnodwyd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol.
 - Bydd staff hefyd yn cyfrif y papurau pleidleisio o bob gorsaf pleidleisio. Byddant yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau a ddosbarthwyd, fel y cofnodwyd ar gyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddog Llywyddu.

The Electoral Commission

- Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn llunio datganiad yn dangos faint o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd o gymharu â faint o bapurau pleidleisio a ddisgwyliwyd.

3. Cyfrif y pleidleisiau

- Bydd staff yn rhannu'r papurau pleidleisio yn ôl ymgeisydd
- Yna, bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd
- Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol yn rhannu'r canlyniad dros dro ag ymgeiswyr a'u hasiantiaid. Ar y cam hwn, gall ymgeisydd neu ei asiant ofyn am i'r pleidleisiau gael eu hailgyfrif. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol wrthod y cais os bydd yn credu bod hynny'n afresymol.
- Mewn etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (neu Gomisiynwyr yr Heddlu, Tân a Throseddau) â thri ymgeisydd neu fwy, defnyddir system y Bleidlais Atodol, lle y bydd pleidleiswyr yn bwrw pleidlais ffafriaeth gyntaf ac ail ffafriaeth ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddau.
- Yn y broses gyfrif gyntaf, dim ond pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a gaiff eu cyfrif. Ar y diwedd, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhoi gwybod i Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu beth yw'r cyfansymiau lleol. Yna, bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn coladu'r cyfansymiau ar gyfer yr ardal heddlu gyfan. Os bydd ymgeisydd yn cael mwy na 50% o gyfanswm nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys ar draws yr ardal heddlu gyfan, caiff ei ethol. Os na fydd unrhyw ymgeisydd yn cael mwy na 50%, bydd y ddau ymgeisydd ar y brig (neu fwy os ydynt yn gyfartal) yn parhau i ymladd yr etholiad ond caiff enwau'r gweddill eu dileu
- Wrth baratoi ar gyfer yr ail broses gyfrif, bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ddioli'r papurau pleidleisio fel a ganlyn:
 - papurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidlais ffafriaeth gyntaf i un o'r ymgeiswyr sy'n parhau i ymladd yr etholiad – **ni chaiff y rhain eu cyfrif eto** yn ystod yr ail broses gyfrif
 - papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y broses gyfrif gyntaf
 - yr holl bapurau pleidleisio eraill sy'n cynnwys pleidlais ffafriaeth gyntaf ddilys
- Wedyn, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cyfrif yr holl bapurau pleidleisio sy'n cynnwys pleidleisiau ail ffafriaeth dilys i'r ymgeiswyr sy'n parhau
- Ceir rhagor o fanylion am y broses o gyfrif y pleidleisiau mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chomisiynwyr yr Heddlu, Tân a Throseddau yng [nghanllawiau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Canlyniadau](#)

The Electoral Commission

4. **Datgan y canlyniad:** Bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn coladu'r cyfansymiau ar gyfer yr ail broses gyfrif ar gyfer yr ardal heddlu gyfan, a'u hychwanegu at gyfanswm nifer y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a gafodd pob un o'r ymgeiswyr hynny. Caiff yr ymgeisydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau ei ethol, a bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu yn rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau Lleol beth yw'r canlyniad.

Sut mae'r broses o agor pleidleisiau post yn rhan o'r broses hon?

Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor amlenni pleidleisiau post cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â'r diwrnod pleidleisio ei hun.

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol roi rhybudd o 48 awr o leiaf i ymgeiswyr ynghylch pryd a ble y cynhelir y sesiynau. Ym mhob sesiwn agor amlenni, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol ac sydd yn eu cofnodion. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn fodlon eu bod yn cyfateb, caiff y bleidlais ei gwrthod.

Gall ymgeiswyr arsylwi ar y broses neu benodi asiant pleidleisiau post i wneud hynny. Caiff papurau pleidleisio eu trin â'u hwynebaw i lawr mewn sesiynau agor amlenni pleidleisiau post. Ni ddylai neb sy'n mynychu sesiwn agor amlenni geisio edrych ar farciau na rhifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut y cafodd papur pleidleisio penodol ei farcio na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a ddeilliodd o'r sesiwn.

Caiff yr holl bapurau pleidleisio dilys eu rhoi mewn blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.

A ellir herio'r canlyniad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi?

Gellir herio canlyniad etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddu) drwy ddeiseb etholiadol. Dim ond y canlynol all gyflwyno deiseb o'r fath:

- rhywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad
- o leiaf bedwar etholwr (nad ydynt yn etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw) a oedd â hawl i bleidleisio yn yr etholiad

Fel arfer, rhaid cyflwyno deiseb mewn etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (neu Gomisiynydd yr Heddlu, Tân a Throseddu) o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad. Gellir caniatáu rhagor o amser o dan amgylchiadau penodol.

Twyll etholiadol

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol. Byddai'r heddlu perthnasol ar gyfer yr ardal y cynhelir yr etholiad ynddi yn ymchwilio i unrhyw honiadau fod trosedd wedi cael ei chyflawni.

Mae gan bob heddlu swyddog pwynt cyswllt unigol (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, a fydd yn rhoi cyngor i swyddogion yr heddlu lleol. Dylai unrhyw un sy'n gwneud honiad fod yn barod i roi datganiad i'r heddlu ac ategu ei bryderon. Gall pobl hefyd ddewis cysylltu â Tacio'r Tacle yn ddiennw ar 0800 555 111.

Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgeiswyr, gwleidyddion ac aelodau o'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth bod twyll etholiadol yn digwydd, roi gwybod i'r heddlu ar unwaith, gan ddefnyddio'r rhif 111 ar gyfer adegau pan nad oes argyfwng, oni fydd y drosedd wrthi'n cael ei chyflawni.

Beth yw'r troseddau sy'n gysylltiedig â thwyll etholiadol?

Mae troseddau'n cynnwys:

- **Cambersonadu** – Mae'n drosedd pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug), naill ai drwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio, yn bersonol neu fel dirprwy.
- **Dylanwad gormodol / ymddygiad bygythiol** – Mae person yn euog o ddylanwad gormodol os yw'n ceisio dylanwadu ar y ffordd y mae rhywun yn pleidleisio drwy wneud y canlynol:
 - defnyddio neu fygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth
 - achosi neu fygwth achosi anaf, difrod, colled neu niwed
 - atal neu rwystro rhywun rhag arfer ei hawl i bleidleisio – hyd yn oed os na fydd yn llwyddo
- **Llwgwrwbrwyo** – Mae person yn euog o lwgwrwbrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cynnig unrhyw wobwr (gwobr ariannol neu wobwr arall) er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio dros unrhyw ymgeisydd neu beidio â phleidleisio.
- **Tretio** – Mae person yn euog o dretio os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn cynnig bwyd, diod neu adloniant er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr. Mae a wnelo tretio â bwriad llygredig – nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.
- **Datganiadau ffug** – Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau ffug am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ethol ymgeisydd mewn etholiad. Nid yw datganiadau anwir nad ydynt yn ymwneud â

The Electoral Commission

chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug bwriadol ar bapur enwebu.

- **Troseddau sy'n ymwneud ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy** – Ceir amryw droseddau sy'n ymwneud ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio (boed yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy) pan na chaniateir i chi wneud hynny a phleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.
- **Gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chofrestru a phleidleisio absennol** – Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug ar gyfer pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy.